



Cyd-Bwyllgor Corfforedig
Gogledd Cymru
North Wales
Corporate Joint Committee



Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Gorffennaf 2025





Adroddiad ar y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol

Cynnwys

Cynnwys.....	1
1. Cyflwyniad.....	2
1.1 Ein cynlluniau ar gyfer trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru	2
1.2 Pwy sy'n gyfrifol.....	3
1.3 Ein gweledigaeth a'n hamcanion ar gyfer trafnidiaeth	3
1.4 Sut y byddwn yn cyflawni ein cynlluniau ar gyfer trafnidiaeth.....	4
2. Dewis ac arfarnu cynlluniau.....	5
2.1 Dull gweithredu	5
2.2 Llwybrau cyflawni	5
2.3 Rhwydwaith o systemau.....	8
2.4 Dewis a hidlo cynlluniau	9
2.5 Defnyddio'r offeryn blaenoriaethu	10
3. Ein blaenoriaethau ar gyfer trafnidiaeth	11
Atodiad A - Atodlen y cynlluniau (hefyd ar gael fel dangosfwrdd rhyngweithiol)	24
A.1 Cynlluniau blaenoriaeth uwch	25
A.2 Cynlluniau blaenoriaeth canolig.....	38
A.3 Cynlluniau blaenoriaeth is	56
Atodiad B - Diagramau Blaenoriaeth y Cynllun Cyflawni (ar gael fel dangosfyrddau rhyngweithiol)	70
B.1 Diagram Blaenoriaeth – Persbectif Cyflawn.....	72
B.2 Diagram Blaenoriaeth – Persbectif cyflawni awdurdodau lleol.....	72
B.3 Diagram Blaenoriaeth – Persbectif ffynhonnell ariannu.....	72
B.4 Diagram Blaenoriaeth – Persbectif y cwsmer.....	72
Atodiad C Cynlluniau a chostau dros amser.....	73
Atodiad 1 Y dull o arfarnu gan ddefnyddio'r offeryn blaenoriaethu	74

1. Cyflwyniad

1.1 Ein cynlluniau ar gyfer trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru

Mae trafnidiaeth yn rhan hanfodol o'n bywydau yng Ngogledd Cymru. Mae ein system drafnidiaeth yn ein cysylltu â swyddi, addysg, gofal iechyd, siopa a hamdden. Mae'n hanfodol i'n heconomi leol gan ei fod yn cysylltu busnesau â'u cwsmeriaid, yn caniatáu i dwristiaid ymweld ag atyniadau a chyrchfannau gwyliau lleol, ac mae'n hwyluso cludo nwyddau. Mae ein dewis o drafnidiaeth yn effeithio arnom ni fel unigolion ac ar ein hamgylchedd ehangach.

Mae Llwybr Newydd, strategaeth drafnidiaeth Llywodraeth Cymru, yn amlinellu'r weledigaeth ar gyfer sut y gall trafnidiaeth helpu i gyflawni'r blaenoriaethau i Gymru, gan helpu i greu cymdeithas fwy ffyniannus, gwyrdd a chyfartal. Bydd ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn ein helpu i ymdrin â materion trafnidiaeth lleol a rhanbarthol yn awr ac yn y dyfodol dros y 5 mlynedd nesaf (2025-2030) drwy ddarparu fframwaith ar gyfer penderfyniadau ar fuddsoddiad yn y dyfodol. Mae'n nodi sut y gall trafnidiaeth gefnogi'r gwaith o ddarparu Llwybr Newydd a chyfrannu at lwyddiant, adfywio a datblygiad ein rhanbarth.

Mae ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn hanfodol er mwyn sicrhau y gall Gogledd Cymru gyfrannu at gyflawni strategaethau a blaenoriaethau cenedlaethol. Mae ein [Achos dros Newid](#), sydd wedi'i baratoi i ddarparu'r sylfaen dystiolaeth i gefnogi ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, yn nodi'r cysylltiadau â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, yn ystyried cynlluniau ac astudiaethau perthnasol, ac yn amlinellu heriau a chyfleoedd trafnidiaeth allweddol.

Dylid darllen y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn ochr yn ochr â'r [Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol](#), sy'n nodi sut a phryd y bydd ein polisiau a'n hymyriadau yn cael eu cyflawni gan awdurdodau lleol.

Dylid darllen y Cynllun Cyflawni hwn a'n Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hefyd ochr yn ochr â'n [Harfarniad Llesiant Integredig](#), sy'n dangos sut y bydd ein cynlluniau'n cyfrannu at lesiant, gyda chefnogaeth yr asesiadau effaith yr ydym wedi'u cynnal i ystyried materion fel iechyd, cydraddoldeb a bioamrywiaeth.

Mae ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys polisiau i gefnogi gweledigaeth ac uchelgeisiau Llwybr Newydd, Strategaeth Trafnidiaeth Cymru, ac mae'n cyd-fynd â'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol. Ar ben hynny, rhaid i'n cynlluniau wneud y cyfraniadau mwyaf posibl i'r mesurau a nodir yn Fframwaith Monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Mae hynny'n helpu i sicrhau ein bod yn diwallu ein targedau trafnidiaeth a newid hinsawdd. Er mwyn helpu i sicrhau ein bod yn cyrraedd ein targedau, rydym wedi paratoi ein [Cynllun Monitro a Gwerthuso](#) a fydd yn ein helpu i gael y canlyniadau yr ydym eu heisiau.

Dros y pum mlynedd nesaf, byddwn hefyd yn llunio ein Cynllun Datblygu Strategol, gan ystyried y polisiau a'r ymyraethau a amlinellir yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn a'i ddiweddariadau dilynol.

1.2 Pwy sy'n gyfrifol

Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBC) yn sefydliadau llywodraeth leol corfforedig rhanbarthol newydd sydd â phwerau a dyletswyddau tebyg i awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae ein Cyd-bwyllgor Corfforedig yma yn y Gogledd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r chwe chyngor sef Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn, a Wrecsam, yn ogystal ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer materion cynllunio.

Mae gan ein Cyd-bwyllgor Corfforedig yn y Gogledd ddwy brif ddyletswydd statudol: datblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol; a Chynllun Datblygu Strategol. Mae'r cynlluniau hyn yn hanfodol ar gyfer cynllunio gofodol ar lefel strategol, gan sicrhau bod ein hisadeiledd trafndiaeth a'n defnyddiau tir yn cyd-fynd ag anghenion ein cymunedau, economi a'r amgylchedd.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn gyd-bwyllgor a chorff sy'n gwneud penderfyniadau sy'n goruchwyllo Cynllun Twf Gogledd Cymru, sy'n gytundeb a fydd yn cynhyrchu cyfanswm buddsoddiad o dros £1 biliwn i Ogledd Cymru er mwyn creu dros 4000 o swyddi newydd. Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn amsugno swyddogaethau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, ac wrth symud ymlaen gobeithiwn y byddwch yn clywed llawer mwy amdanom wrth i ni helpu i lunio Gogledd Cymru mwy bywiog, cynaliadwy a gwydn.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru, gan weithio gydag awdurdodau lleol y Gogledd, sy'n gyfrifol am gyflawni'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn mewn cysylltiad â'n Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

1.3 Ein gweledigaeth a'n hamcanion ar gyfer trafndiaeth

Ein gweledigaeth fel y'i nodir yn ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yw:

Bydd gan Ogledd Cymru rwydwaith trafndiaeth integredig diogel, cynaliadwy, fforddiadwy, gwydn ac effeithiol sy'n cefnogi twf economaidd, ffyniant i bawb, cynhwysiant a lles.

Cefnogir ein gweledigaeth gan bedwar amcan, a fydd yn ein helpu i fonitro a gwerthuso llwyddiant ein Cynllun:

1. **Gwella cysylltedd digidol a gwasanaethau lleol:** Byddwn yn galluogi 30% neu fwy o bobl yng Ngogledd Cymru i weithio o bell erbyn 2030 trwy gynllunio defnydd tir yn well a gwella cysylltedd digidol, a ddylai leihau'r angen cyffredinol i deithio a galluogi teithiau byrrach sy'n fwy addas ar gyfer dulliau cynaliadwy.
2. **Gwell hygyrchedd a dewis o drafndiaeth:** Byddwn yn datblygu isadeiledd a gwasanaethau sy'n rhoi dewis i bobl sut maent yn teithio ar gyfer pob taith ac yn cefnogi twf economaidd cynaliadwy trwy wella mynediad i aneddeled allweddol, cyflogaeth, safleoedd addysgol ac atyniadau twristaidd. Dylid gwella hygyrchedd pob atyniad taith allweddol, gan gefnogi'r targed rhaniad modd cenedlaethol o 45% o deithiau i'w gwneud trwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus erbyn 2040.
3. **Galluogi datgarboneiddio drwy bontio i fflyd dim allyriadau:** Byddwn yn datblygu isadeiledd ategol a chefnogi cymhellion i alluogi o leiaf 50% o gerbydau modur a phob bws cyhoeddus sy'n gweithredu yng Ngogledd Cymru i fod yn ddi-allyriadau erbyn 2035.
4. **Galluogi Twf Economaidd Cynaliadwy:** Byddwn yn datblygu rhwydwaith trafndiaeth gwydn, diogel, wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, ac effeithlon sy'n darparu twf economaidd cynaliadwy drwy wella hygyrchedd i ardaloedd cyflogaeth presennol a rhai sydd wedi'u cynllunio. Bydd o leiaf 50% o aelwydydd Gogledd Cymru yn gallu teithio'n bellach o fewn un awr ar drafndiaeth gyhoeddus, gan gefnogi mynediad i safleoedd cyflogaeth allweddol a chanolfannau rhanbarthol erbyn 2030.



1.4 Sut y byddwn yn cyflawni ein cynlluniau ar gyfer trafndiaeth

Mae ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi'r polisïau a'r ymyriadau a fydd yn ein helpu tuag at gyflawni ein gweledigaeth a'n hamcanion. Mae'n nodi'n glir y dystiolaeth sydd wedi siapia ein polisïau a'n hymyriadau, gan ystyried y rhwydwaith trafndiaeth presennol a'r dyfodol o ran heriau ac archwilio beth yw'r materion a'r cyfleoedd.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru fel CBC y Gogledd wedi nodi cyfres o ymrwymïadau polisi drwy ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, a fydd yn gofyn am ein hadnoddau fel corff corfforedig rhanbarthol. Er enghraifft, rydym wedi ymrwymo i weithio gydag aelodau bwrdd Rhwydwaith Gogledd Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill i helpu i symud ymlaen â'r cynlluniau sy'n ceisio dod â gwelliannau sylweddol i drafndiaeth gyhoeddus ledled y Gogledd a thu hwnt. Er bod mentrau o'r fath y tu allan i gwmpas y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn, sy'n canolbwyntio ar gynlluniau i'w cyflawni gan awdurdodau lleol, mae'n bwysig i ni gydnabod a chyfleu ymrwymïadau o'r fath a fydd yn bwysig i weithredu ein polisïau Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn llwyddiannus. Dyna pam y byddwn yn cynhyrchu Cynllun Gweithredu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer Uchelgais Gogledd Cymru.

Mae ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'i Gynllun Monitro a Gwerthuso ategol yn amlinellu'r hyn yr ydym am ei gyflawni, gan osod targedau priodol yn unol â'n hamcanion. Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn yn nodi sut rydym yn bwriadu cyflawni'r canlyniadau yr ydym eu heisiau (gan ystyried materion fel fforddiadwyedd, cyflawniad a rheolaeth) a phryd (gan gynnwys amserlenni).

Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn yn adnabod rhestr flaenoriaeth o'r cynlluniau y bydd awdurdodau lleol y Gogledd yn eu datblygu dros y pum mlynedd nesaf, a oruchwylir gan Uchelgais Gogledd Cymru fel Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd. Bydd hyn yn golygu gweithio'n agos gyda Thrafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru ochr yn ochr â phartneriaid eraill fel y bo'n briodol. Drwy gydweithio, rydym wedi ystyried cynlluniau a'u cyfraniad i'n hamcanion, a materion gan gynnwys effeithiau tebygol ar yr amgylchedd, cynllunio defnydd tir, derbynioldeb a chyflawniad rhanddeiliaid.

Mae hyn er enghraifft wedi ein helpu i feddwl sut y gallai cynllun helpu i gyfrannu at newid dulliau teithio, datgarboneiddio, a pha gostau a buddion allai ei gael. Drwy ddilyn y dull hwn, rydym wedi nodi ein blaenoriaethau dros y blynyddoedd nesaf, yn y tymor byr, canolig a thymor hwy.

Bydd cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau trafndiaeth a ddarperir gan ein hawdurdodau lleol yn cael ei ddyrannu'n seiliedig ar y cynlluniau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. Yn bwysig iawn, mae Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'i gynlluniau ar gyfer proses moderneiddio grantiau, sy'n ceisio dod â nifer o grantiau trafndiaeth lleol ynghyd, gan alinio'r ffrydiau ariannu hyn gyda'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol a'u Cynlluniau Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. Nod hyn yw rhoi mwy o allu i ni wneud penderfyniadau o ran sut mae arian grant trafndiaeth lleol yn cael ei wario. Drwy ddyrannu cyllid i drafndiaeth ranbarthol, bydd hyn hefyd yn helpu i leihau'r baich gweinyddol ar ein hawdurdodau lleol. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i adnabod ffynonellau cyllid ar lefel leol, ranbarthol, genedlaethol a'r DU i ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer rhwydwaith trafndiaeth gynaliadwy o ansawdd uchel ledled gogledd Cymru.



2. Dewis ac arfarnu cynlluniau

2.1 Dull gweithredu

Mae cynlluniau trafndiaeth i'w cyflawni gan ein hawdurdodau lleol wedi'u hadnabod drwy adolygiad cynhwysfawr o gynlluniau perthnasol, ceisiadau cyllid diweddar a cheisiadau sy'n dod i'r amlwg, ac yn cynnwys partneriaid cynllunio a chyflawni gan gynnwys Trafnidiaeth Cymru. Mae ffynonellau cyllido gan gynnwys Llywodraeth Cymru eisiau sicrwydd ynghylch pa gynlluniau sy'n debygol o barhau a dod ymlaen dros y pum mlynedd nesaf. Rydym oll eisiau gwybod beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer trafndiaeth ar draws ein cymunedau lleol, Gogledd Cymru a Chymru gyfan. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y byddwn yn paratoi ein Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer Gogledd Cymru yn fuan, a bydd angen iddo ystyried ein cynlluniau ar gyfer trafndiaeth law yn llaw â defnydd tir a datblygiad economaidd. Dyna pam ein bod wedi ystyried yn ofalus yr holl opsiynau gwahanol sydd ar gael i ni ynghylch sut y gallwn gyflawni ein polisiau a'n hymyriadau, ac yn eu tro ein gweledigaeth a'n hamcanion ar gyfer Gogledd Cymru bywiog, cynaliadwy a gwydn.

Wrth ystyried y gwahanol opsiynau, rydym wedi ystyried angen ein rhanbarth i gyfrannu at gyflawni blaenoriaethau ac uchelgeisiau trafndiaeth cenedlaethol, a thargedau ar gyfer shiftt moddol a datgarboneiddio. Rydym hefyd wedi ystyried sut rydym am i'n rhwydweithiau rhanbarthol ac is-ranbarthol gael eu datblygu a'u gwella drwy ymateb i'r heconomi, cymdeithas, diwylliant ac amgylchedd unigryw yng Ngogledd Cymru. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y bydd ein trigolion a'n hymwelwyr yn elwa o fwy o ddewisiadau teithio a gwell cysylltedd, gan hefyd leihau ein heffaith amgylcheddol.

Drwy weithio gyda Trafnidiaeth Cymru, rydym wedi datblygu ac addasu offeryn blaenoriaethu ar gyfer cyd-destun Gogledd Cymru. Mae'r teclyn wedi ein helpu i ddewis, gwerthuso a blaenoriaethu cynlluniau. Mae hynny wedi golygu gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i gasglu'r dystiolaeth a'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i sicrhau bod pob agwedd ar gynlluniau, eu halinio â'n hamcanion, effeithiau tebygol a chyflawniad wedi cael eu hystyried.

Rydym yn disgrifio sut rydym wedi mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd hyn yn eu tro isod.

2.2 Llwybrau cyflawni

Mae Llwybr Newydd, Strategaeth Trafnidiaeth Cymru yn adnabod pedwar maes allweddol sy'n hanfodol i gyflawni'r blaenoriaethau a'r uchelgeisiau trafndiaeth cenedlaethol – datgarboneiddio, cydraddoldeb, cynllunio teithiau integredig a gwledig. Mae'r rhain yn torri ar draws y gwahanol foddau a sectorau. Mae ystod eang o ymrwymadau wedi'u nodi yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol sy'n ymwneud â phob un o'r rhain drwy gydol Strategaeth Trafnidiaeth Cymru. Mae Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi'i baratoi i helpu i gyflawni'r blaenoriaethau a'r uchelgeisiau trafndiaeth cenedlaethol yn ogystal â chyfrannu at dargedau cenedlaethol ar gyfer newid moddol a datgarboneiddio.

Fel sydd wedi'i nodi yn ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, rydym wedi adnabod pum thema drawsbynciol a fydd yn ein helpu i ddilyn ein dyletswyddau a'n hymrwymadau ehangach a chyfrannu at y llwybrau cyflawni trawsbynciol a nodir yn Llwybr Newydd, Strategaeth Trafnidiaeth Cymru - gwerth cymdeithasol, tegwch, dan arweiniad y gymuned, integreiddio a fforddiadwyedd. Mae'r rhain hefyd yn cynnwys y gwahanol foddau a sectorau yn ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, sydd wedi'u siapia o amgylch themâu polisi yn seiliedig ar naw mân-gynllun Strategaeth Trafnidiaeth Cymru ar gyfer pob modd trafndiaeth, wedi'i haddasu ar gyfer y Gogledd. Mae'r rhain yn cynrychioli meysydd ffocws allweddol ar gyfer ein polisiau ac ymyraethau trafndiaeth, sy'n gosod y fframwaith ar gyfer cyflawni cynlluniau gan awdurdodau lleol Gogledd Cymru yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn.

Rydym yn hyderus, yn y ffordd yr ydym wedi alinio ein themâu trawsbynciol rhanbarthol â'r llwybrau cyflawni trawsbynciol cenedlaethol, a'r ffordd yr ydym wedi fframio ein themâu polisi o amgylch y gwahanol ddulliau a sectorau sy'n adlewyrchu'r mân-gynlluniau cenedlaethol ar gyfer pob modd o



drafnidiaeth, y bydd ein cynigion rhanbarthol ar gyfer trafndiaeth yn cyfrannu'n gryf at gyflawni'r llwybrau cenedlaethol tra'n addas i'r diben i gyflawni ein gweledigaeth a'n hamcanion rhanbarthol ar gyfer trafndiaeth. Mae'r Cynllun Cyflawni Trafndiaeth Cenedlaethol yn darparu crynodeb o'r prif fentrau cenedlaethol a fydd yn allweddol i gyflawni pob llwybr cenedlaethol. Mewn ymateb, rydym yn crynhoi sut y bydd ein polisiâu a'n hymyriadau rhanbarthol yn allweddol i gyflawni pob llwybr:

Llwybr cynllunio teithiau integredig

Bydd ein polisiâu a'n hymyriadau yn helpu i hwyluso teithiau integredig trwy foddau cynaliadwy, a fydd yn helpu i gyrraedd ein targedau shift moddol. Mae ein cynllun yn dwyn ynghyd ystod o gyfleoedd ynghylch dylunio gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus, amserlennu, tocynnau, darparu gwybodaeth, buddsoddi mewn seilwaith a chynllunio a datblygu polisi i alluogi teithiau cynaliadwy i ddigwydd yn hawdd ac yn ddibynadwy. Er enghraifft, mae Rhaglen Metro Gogledd Cymru yn fenter gynhwysfawr sydd â'r nod o drawsnewid trafndiaeth gyhoeddus a theithio llesol ar draws y rhanbarth a'i nod yw gwella cysylltedd yng Ngogledd Cymru a chryfhau cysylltiadau â Gogledd-orllewin Lloegr. Mae rhai o'n hymyriadau Cynllun Trafndiaeth Rhanbarthol penodol sy'n allweddol i'r llwybr cyflawni hwn yn cynnwys:

Polisi PT9: Cefnogi Gweledigaeth Llywodraeth Cymru o 'Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn' ar gyfer system fysiau sy'n cael ei llywodraethu a'i chynllunio i wasanaethu budd y cyhoedd, gyda'r cwmpas daearyddol ehangaf posibl, cysylltiadau cwbl integredig rhwng gwahanol wasanaethau, yr amleddau gwasanaeth uchaf posibl, a thocynnau a gwybodaeth hawdd eu defnyddio, unedig, syml.

Polisi LU5: Dylid annog datblygiadau sy'n agos at gyfleusterau cludiant cyhoeddus, a dylid dylunio datblygiadau i helpu i hwyluso a gwella cysylltedd cludiant cyhoeddus mewn ardaloedd trefol a gwledig.

Polisi LU6: Cefnogi lleihau'r safonau parcio ar gyfer datblygiadau newydd, yn enwedig mewn ardaloedd trefol lle byddwn yn mynd ati i wella dewisiadau amgen trafndiaeth gynaliadwy.

Polisi IN3: Bydd gwelliannau Isadeiledd Teithio Llesol a nodwyd ar Gynlluniau Rhwydwaith Gorsafoedd yn cael eu cyflawni, a bydd Cynlluniau Rhwydwaith Gorsafoedd yn cael eu datblygu ar gyfer y gorsafoedd hynny nad oes ganddynt un ar hyn o bryd.

Polisi PT4: Bydd y Rhwydwaith Trawsnewid Gwasanaeth Bws yn cael ei gyflwyno yng ngogledd Cymru. Bydd hyn yn cynnwys rhwydwaith craidd o wasanaethau rhwng ac o fewn aneddeleoedd mawr a safleoedd cyflogaeth gydag amlder o ddau i bedwar bws yr awr, yn ymestyn i'r nos.

Polisi RS12: Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i gynyddu'r nifer o glybiau ceir yng ngogledd Cymru trwy weithio ar y cyd â darparwyr clybiau ceir, gan gynnwys darparwyr clybiau ceir cymunedol mewn ardaloedd gwledig a threfol; ac mewn gorsafoedd, mewn mannau gwaith a chanolfannau symudedd.

Polisi AV1: Cefnogi'r gwelliannau i fynediad ar y ddaear at feysydd awyr domestig a rhyngwladol, gan ganolbwyntio ar wella gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus.

Polisi AT13: Gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys y sector masnachol, i gyflwyno cynllun llogi e-feicio a beicio cyhoeddus mewn cyfnewidfeydd trafndiaeth mawr neu leoliadau addas eraill, ac mewn lleoliadau lle mae cynllun o'r fath yn cefnogi'r economi ymweld.

Llwybr datgarboneiddio

Mae ein polisiâu a'n hymyriadau sy'n cael eu fframio o amgylch newid ymddygiad, cysylltedd digidol a gwahanol foddau fel cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus, yn ceisio annog pobl i helpu i leihau'r angen i deithio neu wneud y newid i drafnidiaeth carbon isel cynaliadwy. Bydd Cynllun Monitro a Gwerthuso ein Cynllun Trafndiaeth Rhanbarthol hefyd yn gosod targedau ar gyfer newid moddol, effeithlonrwydd cludiant nwyddau, ac allyriadau teithwyr i gyd yn cyfrannu at ddatgarboneiddio. Mae rhai o'n hymyriadau Cynllun Trafndiaeth Rhanbarthol penodol sy'n allweddol i'r llwybr cyflawni hwn yn cynnwys:

Polisi PF4: Gweithio gyda phartneriaid i chwilio am gyfleoedd i ategu datblygiad canolfannau hydrogen yng ngogledd Cymru trwy gefnogi newid i danwydd hydrogen ar gyfer gweithredwyr cludo llwythi yn y rhanbarth.

Polisi PF5: Gweithio gyda phartneriaid i nodi cyfleoedd i drydaneiddio cerbydau ar gyfer danfoniadau lleol.

Polisi RS6: Gweithio gyda phartneriaid i chwilio am opsiynau ar gyfer ailddyrrannu gofod parcio ceir ac ar ffyrdd presennol yn ein trefi allweddol i wella'r amgylchedd lleol, creu mannau mwy deniadol i bobl fyw, a'i gwneud yn haws i bobl gerdded a beicio.

Polisi RS9: Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu ymgyrch gyfathrebu gynhwysfawr i annog pobl i ddefnyddio cerbydau trydan, gan ddysgu o'r arfer orau.

Polisi RS11: Dylai'r Cynllun Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol fynnu bod datblygiadau preswyl a di-breswyl newydd yn darparu digon o bwyntiau gwefru cerbydau trydan i gwrdd â'r galw yn y dyfodol a chymhell y defnydd o gerbydau trydan.

Polisi RS13: Dylid defnyddio'r broses cynllunio teithio i annog rhannu ceir ar gyfer cymudo.

Polisi DC1: Dylid chwilio am gyfleoedd i weithio gyda chymunedau a busnesau i hyrwyddo a hwyluso canolfannau gweithio o bell.

Polisi DC2: Dylai addysg a hyfforddiant llythrennedd ddigidol fod ar gael yn helaeth i helpu trigolion gogledd Cymru i fynd ar-lein a dod o hyd i'r wybodaeth y mae arnynt ei hangen i wneud dewisiadau teithio cynaliadwy.

Llwybr Cydraddoldeb

Mae ein polisiau a'n hymyriadau wedi ystyried ein hymrwymadau cyfreithiol a pholisi ar hygyrchedd seilwaith a gwasanaethau, yn ogystal â'n hymrwymadau ar ddylunio cynhwysol. Mae ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi ystyried effeithiau posibl ein polisiau a'n hymyriadau ar gydraddoldeb a phobl â nodweddion gwarchodedig. Mae rhai o'n hymyriadau Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol penodol sy'n allweddol i'r llwybr cyflawni hwn yn cynnwys:

Polisi CB8: Rhoddir blaenoriaeth i ariannu cynlluniau a gwasanaethau sy'n gwella mynediad cynaliadwy at wasanaethau hanfodol sy'n cyfoethogi bywyd, megis addysg, gofal iechyd, canol trefi a chyfleusterau cymunedol.

Polisi CB11: Dylai awdurdodau lleol ymestyn eu gwaith gydag ysgolion a rhieni i annog a chefnogi teithio cynaliadwy ar gyfer plant, rhieni a staff.

Polisi CB13: Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i gyflawni'r gwelliannau trafndiaeth angenrheidiol cymdeithasol sy'n atal ynysu gwledig.

Polisi CB14: Bydd ymgyrchoedd Marchnata a Chyfathrebu yn cael eu datblygu i godi ymwybyddiaeth o fanteision teithio cynaliadwy. Bydd ymgyrchoedd yn defnyddio technegau arloesol i dargedu grwpiau a all fod yn anoddach eu cyrraedd.

Polisi PT10: Gweithio gyda phartneriaid, yn cynnwys awdurdodau lleol a gweithredwyr, i wneud teithio ar fws yn fwy hygyrch i bobl gyda symudedd neu anableddau cyfyngedig.

Polisi AT3: Pan fo'n bosib, dylai isadeiledd cerdded a beicio fod yn hygyrch i bawb, gan gynnwys pobl sydd ag amhariadau symudedd, pobl mewn cadeiriau olwyn a phobl sy'n gwrthio pramiau.

Polisi IN2: Bydd creu lleoedd a chyfeirio pobl mewn gorsafoedd ac arosfannau bysiau allweddol yn cael ei wella. Dylai hyn ystyried cysylltiadau ymlaen i atyniadau allweddol a bydd hyn yn cael ei wneud mewn ymgynghoriad â sefydliadau lleol a chymunedol, gan gynnwys grwpiau sy'n cynrychioli cymunedau â nodweddion gwarchodedig.

Llwybr Gwledig

Mae gan ogledd Cymru boblogaeth wledig fawr, ac mae ein polisiau a'n hymyriadau yn anelu at ddarparu mynediad at drafndiaeth gyhoeddus gynaliadwy, diogel a dibynadwy i helpu pobl i gael mynediad at wasanaethau, cyflogaeth, cyfleoedd diwylliannol ac addysg i'w galluogi i ffynnu. Mae ein polisiau a'n hymyriadau yn cydnabod bod anghenion trafndiaeth ein cymunedau yng nghefn gwlad Gogledd Cymru yn wahanol i'r rhai mewn ardaloedd mwy trefol. Mae rhai o'n hymyriadau Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol penodol sy'n allweddol i'r llwybr cyflawni hwn yn cynnwys:

Polisi RS7: Cefnogi'r trosglwyddo at gerbydau trydan yng ngogledd Cymru, trwy sicrhau bod isadeiledd gwefru teg ar gael mewn ardaloedd trefol a helpu i hwyluso gosod preifat neu osodiadau wedi'u harwain gan y gymuned mewn ardaloedd gwledig.

Polisi RS10: Gweithio gyda'r Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu i chwilio am gyfleoedd i wella capasiti'r grid mewn lleoliadau lle mae rhwystr i gyflwyno gwefrydd cerbydau trydan.

Polisi AT4: Mewn ardaloedd gwledig, bydd gwelliannau isadeiledd teithio llesol yn canolbwyntio ar fudd y gymuned o gynlluniau; gwella diogelwch a llwybrau sy'n cysylltu cymunedau llai gydag anedlleoedd mwy a gwasanaethau.

Polisi AT6: Byddwn yn ymchwilio i gyflwyno Lonydd Tawel yng ngogledd Cymru yn unol â chanllawiau cenedlaethol.

Polisi AT9: Cefnogi newidiadau i feini prawf cyllid teithio llesol fydd yn rhoi mwy o bwyslais ar gynlluniau mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd preswyl.

Polisi AT10: Archwilio ffrydiau ariannu ychwanegol i'r Gronfa Teithio Llesol sy'n cefnogi cyflawni gwelliannau isadeiledd teithio llesol mewn ardaloedd gwledig.

Polisi AT11: Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu templedi a phecynnau cymorth i gefnogi cymunedau lleol i ddatblygu a gweithredu eu prosiectau eu hunain lle mae'r llywodraeth yn chwarae rôl hwyluso a chefnogi, yn hytrach na rôl o wneud a chyflawni.

Polisi PT11: Dylai gwasanaethau peilot Fflecsi llwyddiannus fod yn barhaol, a dylai gwasanaethau Fflecsi ychwanegol gael eu dylunio gyda'r gymuned leol a'u cyflwyno mewn

ardaloedd eraill, yn unol â chynigion rhwydwaith trawsnewid bysus.

Polisi PT12: Gweithio gydag awdurdodau lleol a Thrafnidiaeth Cymru i gyd-weithio gyda chymunedau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, i helpu ariannu a chyflawni gwasanaethau trafndiaeth cymunedol sy'n gwrdd ag anghenion sydd heb eu bodloni fel arall.

Polisi CB17: Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i wneud gwasanaeth bws Sherpa'r Wyddfa yn barhaol, gyda chyllid

hirdymor; ac ymchwilio i sut y gellir integreiddio gwasanaethau ymhellach gyda'r rhwydweithiau bws a rheilffordd ehangach.

Polisi CB20: Bydd datrysiadau arloesol ar gyfer rhoi mynediad i atyniadau mewn ardaloedd gwledig yn cael eu hadnabod. Dylai hyn ystyried, ond heb fod yn gyfyngedig i, gwasanaethau bysiau tymhorol, llogi e-feiciau a dulliau micro-symudedd eraill, ynghyd ag ymgyrchoedd gwybodaeth.

2.3 Rhwydwaith o systemau



Cymerwyd agwedd yn seiliedig ar y rhwydwaith ar gyfer ein cynigion, lle mae'r ffocws allweddol ar roi mwy o ddewis i bob grŵp o bobl ynghylch pryd a sut maent yn teithio. Mae ymyraethau yn ceisio ymateb i ardaloedd daearyddol a phoblogaethau amrywiol Gogledd Cymru, gan ystyried rhannau mwy trefol a gwledig y rhanbarth, gan geisio trafndiaeth gwbl integredig.

Er y bydd cynlluniau yn cael eu cyflawni gan ein hawdurdodau lleol, mae'n bwysig cydnabod na ddylid eu halinio â ffiniau sirol a byddant yn cael eu cydlynu a'u blaenoriaethu ar lefel ranbarthol, tra'n cyfrannu at ganlyniadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Er bod ein system drafnidiaeth yn rhyngwynebu â gwahanol raddfeydd daearyddol fel y disgrifir uchod, mae ein ffyrdd, strydoedd, rheilffyrdd a llwybrau teithio llesol i gyd yn croesi ffiniau i gysylltu ein cymunedau, ein mannau gwaith a hamdden. Dyna pam mae angen i ni feddwl am ein llwybrau trafndiaeth gan bob modd fel rhwydwaith rhyng-gysylltiedig o systemau. I lawer ohonom, mae ein llwybrau mwyaf cyfarwydd yn seiliedig ar ein teithiau teithio i'r gwaith, neu'r teithiau rydyn ni'n eu gwneud i gyrraedd yr ysgol, y siopau, neu lle rydyn ni'n hoffi ymweld â nhw yn ein hamser hamdden. Rydym yn aml yn teithio ar wahanol foddau, o gerdded a beicio ar gyfer teithiau byrrach, i fws, coets, rheilffordd neu gar ar gyfer teithiau pellter hirach.

Gan adeiladu ar waith Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru a Rhaglen Metro Gogledd Cymru, mae gennym gyfle i roi'r rhwydwaith trawsnewid bysiau wrth wraidd ein system, a'r rhwydwaith teithio llesol, a gorsafoedd a gwasanaethau rheilffyrdd i gyd yn adeiladu ac yn cysylltu â'i gilydd, ynghyd â chyfnewidfeydd a chanolfannau trafndiaeth allweddol. Yna gallwn ategu'r system honno gydag opsiynau teithio mwy hyblyg, fel trafndiaeth ar alw a chymunedol. Gallwn ei gwneud mor hawdd â phosibl i bob grŵp o bobl gael mynediad at y wybodaeth amser real sydd ei hangen arnynt a symud rhwng moddau gyda thechnolegau integredig arloesol a di-dor. Dylem hefyd ei gwneud hi'n haws i bobl leihau faint maen nhw'n teithio gyda hybiau lleol, band eang o ansawdd uchel, a chynllunio defnydd tir sy'n seiliedig ar drafnidiaeth.

Mae ein cynlluniau awdurdodau lleol yn ymateb i'r cyfle hwn ac yn hytrach na meddwl amdanynt fel rhestr hir o fesurau, bydd eu cyflawni yn digwydd drwy lens rhwydwaith o systemau. Er mwyn helpu i ddangos y cyfle hwn, rydym wedi cynhyrchu diagram systemau:



2.4 Dewis a hidlo cynlluniau

Rydym wedi gweithio gyda'n partneriaid mewn awdurdodau lleol, Trafnidiaeth Cymru a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb mewn trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru i adnabod cynlluniau a fydd yn cyflawni ein polisïau a'n hymyriadau mewn ffordd gyfannol ac integredig. Mae'r rhain yn cynnwys ystod o gynlluniau a chynigion awdurdodau lleol penodol sydd naill ai'n uchelgeisiol, a fydd yn dechrau o fewn y pum mlynedd nesaf, neu'n parhau i gael eu cyflawni dros gyfnod y cynllun hyd at 2030 neu y tu hwnt.

Mae ein cynlluniau yn cyd-fynd â'r gwahanol ddulliau yn ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, wedi'u siapia o amgylch ein rhwydweithiau, ac yn cyd-fynd â'r themâu polisi sy'n ymateb i'r llwybrau cyflawni cenedlaethol a'n themâu trawsbynciol rhanbarthol.

Er bod polisïau ac ymyriadau rhwydwaith rheilffyrdd a rhwydwaith ffyrdd strategol yn cael eu hystyried yn uchelgeisiau yn ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, maent yn gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru fel yr awdurdod prifffyrdd ar gyfer yr holl gefnffyrdd a thraffyrdd yng Nghymru, a Network Rail neu Trafnidiaeth Cymru sydd â chyfrifoldebau am gynnal, moderneiddio a gweithredu'r rhwydwaith rheilffyrdd ledled Cymru a siroedd ar y ffin â Lloegr.

Er y byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i ddatblygu'n uchelgeisiau ar y cyd ar gyfer y rhwydwaith ffyrdd a rheilffyrdd strategol a nodir yn ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, bydd cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y cynlluniau trafnidiaeth sydd i'w cyflawni gan ein hawdurdodau lleol yn cael ei ddyrannu yn seiliedig ar y cynlluniau sydd wedi eu cynnwys yn ein Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. Am y rhesymau uchod, ni fydd hyn yn cynnwys cynlluniau sy'n ymwneud â'r rhwydwaith rheilffyrdd neu gefnffyrdd.

Yn yr un modd, ni fydd prosiectau a adnabuwyd ar gyfer cyllid ar lefel genedlaethol, neu a fyddai'n gofyn am astudiaethau dichonoldeb neu waith cysylltiedig gan Drafnidiaeth Cymru neu Uchelgais Gogledd Cymru cyn i gynlluniau gael eu datblygu gan awdurdod lleol, yn cael eu cynnwys ar hyn o bryd.



Mae'n bwysig ystyried y gall cynlluniau newydd neu ddiwygiedig ddod ymlaen yn ystod cyfnod y cynllun sy'n anhysbys neu'n rhai a ragwelir ar hyn o bryd. Bydd unrhyw ddiwygiadau gofynnol i'n cynlluniau yn cael eu codi a'u trafod cyn gynted â phosib fel rhan o sesiynau diweddarau cynnydd dan arweiniad y Cyd-bwyllgor Corfforedig ac awdurdodau lleol ledled Gogledd Cymru. Bydd y rhain yn digwydd tua bob tri mis.

Mae'r rhestr o gynlluniau a gymerir ymlaen i'w blaenoriaethu wedi eithrio cefnffyrdd (traffyrdd neu ffyrdd A) a chynlluniau rheilffyrdd na fyddai'n cael eu darparu gan awdurdodau lleol. Gellir dod o hyd i ddyheadau sy'n ymwneud â chefnffyrdd ac ymyriadau rheilffyrdd yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Mae gweddill cynlluniau awdurdodau lleol wedi bod yn destun arfarnu ac yna blaenoriaethu gan ddefnyddio offeryn blaenoriaethu Trafnidiaeth Cymru, a ddatblygwyd ac a addasir ar gyfer cyd-destun Gogledd Cymru.

2.5 Defnyddio'r offeryn blaenoriaethu

Mae'r offeryn blaenoriaethu'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'i ddatblygu gan Trafnidiaeth Cymru mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, y Cyd-bwyllgorau Corfforedig a swyddogion awdurdodau lleol ledled Cymru. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi cydweithio ar draws rhanbarthau i ddatblygu dull gyda'r hyblygrwydd i'w addasu i ofynion gwahanol ac esblygol. Mae hyn wedi arwain at ddarparu offeryn sy'n helpu i fynd o bolisiâu ac ymyriadau y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol i restr flaenoriaethol o gynlluniau yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. Egwyddorion allweddol ar gyfer yr offeryn yw:

- Dylai ymateb i amcanion rhanbarthol
- Dylai ddarparu arfarniad meintiol dibynadwy a gwrthrychol o gynlluniau, gan fanteisio ar ddata a dadansoddiad GIS
- Dylai ddarparu arfarniad ansoddol o gynlluniau, er mwyn sicrhau bod naws ac elfennau dynol yn cael eu dal
- Dylai fod yn hyblyg: caniatáu i feini prawf ychwanegol gael eu cyflwyno wrth iddynt ddod i'r amlwg, gellir ymgorffori a chael eu defnyddio ar gyfer cynlluniau ar wahanol gamau datblygu, gellir ymgorffori a defnyddio ar gyfer rhaglenni cyfan, a phrosiectau o fewn y rhaglenni hynny, a gellir ymgorffori a defnyddio ar draws cynlluniau o wahanol fathau a meintiau

I grynhoi, mae'r offeryn blaenoriaethu yn daenlen Excel sy'n darparu fframwaith gwerthuso defnyddiol, sydd wedi'i addasu i gynnwys amcanion Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

Mae gan yr offeryn gyfanswm o chwe cham:

1. Diffinio amcanion a mesurau'r cynllun
2. Llenwi'r disgrifiad a chrynodeb y cynllun
3. Didoli ar lefel uchel am y tro cyntaf
4. Dadansoddiad GIS ac arfarniad gwrthrychol
5. Arfarniad cyflawni
6. Blaenoriaethu cynlluniau

Mae awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru wedi cydweithio i ddarparu'r data a'r dystiolaeth angenrheidiol i boblogi meini prawf gwerthuso a chelloedd data yr offeryn. Mae ffeil waith a rennir y mae gan swyddogion lleol fynediad ati wedi helpu i sicrhau dull cyson o arfarnu, gan elwa hefyd o opsiynau gwerth safonol ar gyfer meini prawf fel amserlenni ac ystodau o gostau cyfalaf.

Mae'r dull o arfarnu gan ddefnyddio'r offeryn wedi'i grynhoi yn **Atodiad 1**.

3. Ein blaenoriaethau ar gyfer trafnidiaeth

Deall ein blaenoriaethau

Yn ôl yr angen, mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn yn rhestru'r cynlluniau penodol a fydd yn helpu i gyflawni'r weledigaeth ar gyfer y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, wedi'u rhestru a'u dilyniannu i'w cyflawni.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn mynnu bod blaenoriaeth yn seiliedig ar yr effaith fwyaf wrth gyflawni blaenoriaethau Strategaeth Trafnidiaeth Cymru). Rydym hefyd wedi seilio blaenoriaeth ar y sgoriau cyffredinol fel allbynnau o'r ymarfer offeryn blaenoriaethu, gan ystyried materion cyflawnadwyedd yn ogystal ag aliniad ag amcanion y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol sy'n adlewyrchu'r targedau cenedlaethol ar gyfer newid moddol a datgarboneiddio.

Mae ein cynlluniau yn cael eu rhestru fel blaenoriaeth uwch, canolig neu is o fewn amserlenni ar gyfer cyflawni (gweler blaenoriaethau dros amser, isod). Mae trothwyon wedi'u cymhwyso i sgoriau perfformiad yn seiliedig ar allbynnau yr offeryn blaenoriaethu, mewn cytundeb â'n hawdurdodau lleol i helpu i flaenoriaethu safle yn y tri chategori hyn.

Cynlluniau uwch yw'r rhai y mae awdurdodau lleol yn bwriadu buddsoddi ynddynt i gyflawni'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol fel blaenoriaeth.

Mae'n bwysig nodi nad yw cydnabod cynllun fel blaenoriaeth ganolig neu is ar y raddfa ranbarthol hon yn nodi nad yw o bwysigrwydd lleol, neu na ddylid ei ddatblygu. Yn hytrach, mae yna gynlluniau eraill ledled y rhanbarth sy'n debygol o gael mwy o effaith wrth gyflawni'r blaenoriaethau a'r uchelgeisiau rhanbarthol a chenedlaethol, ac felly dylid eu blaenoriaethu ar raddfa ranbarthol ar gyfer buddsoddi dros y cyfnodau amser a ragwelir.

Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn cydweithio ag awdurdodau lleol i gyflwyno'r cynlluniau uwch dros gyfnod y cynllun fel blaenoriaeth, gyda chynlluniau blaenoriaeth canolig ac is i ddod ymlaen yn amodol ar argaeledd cyllid neu pe na bai cynllun blaenoriaeth uwch yn dod ymlaen o fewn cyfnod y cynllun fel y disgwyliwyd. Yn yr achosion hynny, bydd y sgoriau perfformiad yn seiliedig ar allbynnau yr offeryn blaenoriaethu yn helpu Uchelgais Gogledd Cymru ac awdurdodau lleol i gytuno pa gynlluniau blaenoriaeth canolig ac yna blaenoriaeth is a allai ddod ymlaen unwaith y bydd y cynlluniau uwch wedi'u cyflawni.

Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn cydweithio â'r awdurdodau lleol i greu rhaglenni blynyddol o gynlluniau i gadarnhau pa gynlluniau fydd yn dod ymlaen bob blwyddyn. Bydd hyn yn cael ei lywio gan safle blaenoriaeth cynlluniau sydd wedi ystyried amserlenni ar gyfer cyflawni, sydd wedi helpu i roi eglurder ar hyn o bryd ynghylch pa gynlluniau fydd yn dod ymlaen ym mhob blwyddyn o gyfnod y cynllun.

Blaenoriaethau dros amser

Mae ein cynlluniau wedi'u trefnu o amgylch amserlenni disgwyledig i'w cyflawni, dros y canlynol:

- Tymor byr: cynlluniau a fydd ar y gweill neu sydd â'r potensial i ddechrau cyflawni ar ddechrau'r rhaglen 5 mlynedd pe bai cyllid ar gael ym Mlwyddyn Ariannol 2026/27
- Tymor canolig: cynlluniau gyda'r potensial i ddechrau eu cyflawni pe bai cyllid ar gael rhwng Blwyddyn Ariannol 2027/28 a Blwyddyn Ariannol 2029/30
- Tymor hir: cynlluniau gyda'r potensial i ddechrau cyflawni ar ddiwedd y rhaglen 5 mlynedd pe bai'r cyllid ym mlwyddyn ariannol 2030/31
- Uchelgeisiol: Nid oes unrhyw amserlen wedi'i ragweld ar hyn o bryd na chyflawni yn debygol y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol 2030/31
- Neilltuwyd: Ar hyn o bryd nid yw'n cael ei symud ymlaen ond gyda photensial i ddychwelyd gyda gwaith datblygu pellach

Blaenoriaethau yn ôl modd

Cyflwynir blaenoriaethau hefyd yn ôl themâu polisi gan gynnwys dull trafndiaeth, i helpu rhanddeiliaid i ddeall ble i ddisgwyl gweld buddsoddiad mewn gwahanol fathau o drafndiaeth. Mae hyn yn cynnwys:

- Teithio llesol
- Bysiau a choetsis
- Trafndiaeth gymunedol a thacsis ar alw
- Cludo a logisteg
- Integreiddio
- Porthladdoedd
- Ffyrdd, strydoedd a pharcio.

Mae'r dull hwn hefyd yn helpu i ddangos cyfraniad y Cynllun Cyflawni Trafndiaeth Rhanbarthol i'r polisiâu a nodir yn y Cynllun Trafndiaeth Rhanbarthol. Mae'r dull hwn hefyd wedi ceisio helpu i sicrhau bod ystod o ddulliau yn cael eu blaenoriaethu, gan geisio sicrhau darparu rhwydwaith o systemau yn hytrach na gweld buddsoddiad yn llifo'n bennaf i un neu nifer cyfyngedig o ddulliau, a allai berfformio'n uchel yn yr offeryn blaenoriaethu.

Buddsoddi a chyllid

O fewn ein blaenoriaethau ar gyfer trafndiaeth, fe wnaethom nodi costau cyfalaf a gweithredu a ragwelir sy'n gysylltiedig, ochr yn ochr â ffynonellau cyllid tebygol. Mae hyn hefyd yn ein helpu i nodi sut y bydd awdurdodau lleol yn cwrdd â chanlyniadau refeniw y cynlluniau.

Bydd cyllid Llywodraeth Cymru ar gael ar gyfer cynlluniau awdurdodau lleol unwaith y bydd y Cynllun Trafndiaeth Rhanbarthol ar waith, ar y sail y bydd unrhyw gynlluniau a gynigir ar gyfer cymorth yn cael eu nodi a'u blaenoriaethu mewn Cynllun Cyflawni Trafndiaeth Rhanbarthol cymeradwy. Gall hyn gynnwys drwy drefniadau cyllido presennol neu'r rhai sy'n ddarostyngedig i'r broses foderneiddio grantiau, sy'n ceisio dod â nifer o grantiau trafndiaeth lleol at ei gilydd, gan alinio'r ffrydiau cyllido hyn â'r Cynlluniau Trafndiaeth Rhanbarthol a'u Cynlluniau Cyflawni Trafndiaeth Rhanbarthol ar draws rhanbarthau Cymru.

Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Cynllun Trafndiaeth Rhanbarthol drafft, ymgysylltodd Llywodraeth Cymru â'r CBC i helpu i egluro lefelau cyllid rhanbarthol Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â'r Cynlluniau Cyflawni Trafndiaeth Rhanbarthol sy'n dod i'r amlwg ar draws y pedwar rhanbarth, gan ystyried y broses foderneiddio grantiau parhaus.

Yn unol â chynghor Llywodraeth Cymru, cyfanswm cost cynlluniau o fewn y rhaglen 5 mlynedd sy'n gofyn am gyllid trafndiaeth ranbarthol yw oddeutu £150m. Mae hwn yn ffigur hyblyg sy'n ystyried y pum mlynedd diwethaf o ddyfarniadau grant yng Ngogledd Cymru, gydag amcangyfrif o lwfans yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi egluro y bydd y rhaglen 5 mlynedd yn cwmpasu blynyddoedd ariannol 2026/2027 i 2030/2031, yn dilyn dyfarniadau grant awdurdodau lleol 2025/2026.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno y bydd y ffynonellau cyllido canlynol yn rhan o'r gronfa drafndiaeth ranbarthol newydd yn amodol ar y broses foderneiddio grantiau:

- | | |
|---|---|
| ○ Cronfa Teithio Llesol | ○ Cronfa Bolisi 20mya |
| ○ Cronfa Trafndiaeth Leol | ○ Cronfa Llwybrau Diogel mewn Cymunedau |
| ○ Cronfa Ffyrdd Gwydn | ○ Cronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn |
| ○ Cronfeydd Cyfalaf a Refeniw Diogelwch ar y Ffyrdd | ○ Cronfa Ffyrdd heb eu mabwysiadu |

Bydd rhai o'r cynlluniau a adnabuwyd gan awdurdodau lleol sy'n denu gofynion buddsoddi sylweddol yn debygol o fod yn destun cymysgedd o ffynonellau cyllido sy'n debygol o gynnwys ffynonellau neu gytundebau y tu allan i'r cyllid trafndiaeth ranbarthol. Efallai y bydd gan gynlluniau o'r fath fwy o ansicrwydd ariannu ar hyn o bryd.

Mae'r Cynllun Cyflawni Trafndiaeth Rhanbarthol hwn yn adnabod lle mae cynlluniau yn cydfynd â'r Cynllun Cyflawni Trafndiaeth Cenedlaethol, sy'n helpu ymhellach i ddarparu hyder yng nghyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer ymyriadau trafndiaeth.

Bydd Uchelgais Gogledd Cymru ac awdurdodau lleol Gogledd Cymru yn parhau i fod yn greadigol wrth geisio cyllid ychwanegol ar gyfer buddsoddi mewn trafndiaeth. Gallai hyn gynnwys cyllid sector preifat neu drydydd parti, cyllid Llywodraeth y DU, neu ffynonellau eraill. Er enghraifft, mae Uchelgais Gogledd Cymru ar hyn o bryd yn archwilio cyfleoedd ar gyfer cyllid trafndiaeth mewn cysylltiad â:

- Cynllun Twf: Cytundeb a fydd yn cynhyrchu cyfanswm buddsoddiad o dros £1 biliwn i Ogledd Cymru er mwyn creu dros 4000 o swyddi newydd a chynyddu GVA £2.4 biliwn. Gan dargedu sectorau twf economaidd allweddol, gan gynnwys gweithgynhyrchu gwerth uchel ac ynni carbon isel, mae hefyd yn canolbwyntio ar arloesi digidol a gwelliannau seilwaith i gysylltu'r rhanbarth yn well. Yn ogystal, mae'n cefnogi datblygu safleoedd ac adeiladau allweddol i ysgogi'r farchnad datblygwyr. Ymhellach, mae gan y Cynllun Twf nod o gefnogi diwydiannau hanfodol fel twristiaeth ac amaethyddiaeth, gan eu helpu i ddatblygu yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.
- Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam: Buddsoddiad o hyd at £160m dros 10 mlynedd. Fel ymrwymiad ar y cyd gan Lywodraethau'r DU a Chymru, nod y parth buddsoddi yw gwella a thyfu clwstwr gweithgynhyrchu datblygedig sy'n arwyddocaol yn fyd-eang. Bydd yn rhyddhau potensial pellach i Sir y Fflint a Wrecsam, sydd eisoes yn gartref i weithrediadau gweithgynhyrchu gwerth uchel a safleoedd diwydiannol strategol, drwy gynnig cyfuniad unigryw o gefnogaeth, seilwaith a chymhellion wedi'u targedu sydd wedi'u cynllunio i ddenu a chynnal busnes. Bydd y buddion yn bellgyrhaeddol, yn ymestyn ar draws Gogledd Cymru a thu hwnt.
- Porthladd Rhydd Ynys Môn: Dod ag adfywio a chreu swyddi o ansawdd uchel, masnach, mewnfuddsoddiad o hyd at £1bn ac arloesedd i Ynys Môn a Gogledd Cymru. Bydd yn adeiladu ar y rhaglen Ynys Ynni (EIP), cydweithrediad presennol rhwng rhanddeiliaid cyhoeddus, preifat a thrydydd sector. Gweledigaeth yr EIP yw 'creu cyfle unwaith mewn oes ar gyfer swyddi, twf economaidd a ffyniant drwy fanteisio ar nifer o brosiectau

trawsnewidiol yn Ynys Môn'. Mae hefyd yn cyd-fynd yn llawn â nodau Strategaeth Twf Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Gweledigaeth Porthladd Rhydd Ynys Môn yw dod yn ganolfan ar gyfer arloesi, ynni carbon isel a masnach ryngwladol.

- Rhwydwaith Gogledd Cymru: Rhaglen waith hynod uchelgeisiol a thrawsnewidiol i gysylltu cymunedau'n well, gyda mwy o wasanaethau rheilffyrdd a bysiau, gorsafoedd newydd, llwybrau trafnidiaeth newydd, trenau newydd, bysiau newydd a thechnoleg newydd. Wrth ei galon fydd gwasanaethau metro Gogledd Cymru. Bydd hwn yn cymryd dull trawsffiniol o drawsnewid trafnidiaeth gyhoeddus yn ardal Mersi-Dyfrdwy, gan gynnwys gwasanaethau ar ffurf metro ar brif linell Gogledd Cymru a chysylltiad rheilffordd uniongyrchol newydd rhwng Wrecsam a Lerpwl. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo buddsoddiad o dros £13m i ddechrau cyflawni ar unwaith a bydd yn defnyddio ffrydiau cyllido eraill i wireddu'r weledigaeth. Mae'r cynlluniau'n cynnwys:
 - Dechrau gwaith ar y llinell rhwng Wrecsam a Lerpwl fel cam cyntaf hanfodol o ddarparu gwasanaethau metro yn uniongyrchol rhwng y ddwy ddinas.
 - Dyblu gwasanaethau trên rhwng Wrecsam a Chaer fis Mai nesaf.
 - Cyflwyno 50% yn fwy o wasanaethau ar draws prif linell Gogledd Cymru o fis Rhagfyr 2026 i fis Mai nesaf – gan arwain at wasanaeth newydd o Landudno i Lerpwl ac ymestyn gwasanaeth Maes Awyr Manceinion i Gaergybi yn lle Llandudno.
 - Ar ôl cwblhau'r gwaith rheilffordd yn Padeswood, cynyddu gwasanaethau trên rhwng Wrecsam a Bidston i 2 drên yr awr o fewn y tair blynedd nesaf, cyn cyflwyno 4 trên yr awr a fydd yn rhedeg yn uniongyrchol rhwng Wrecsam a Lerpwl erbyn 2035.
 - Bydd Llinell bresennol y Gororau hefyd yn cael ei hailenwi'n linell Wrecsam – Lerpwl.
 - Bydd gorsafoedd allweddol ar linell Wrecsam – Lerpwl yn cael eu gwella yn ystod y 12 mis nesaf.
 - Bydd trenau sy'n gweithredu ar linell Wrecsam – Lerpwl yn cael eu lapio i adlewyrchu'r cymunedau a'r clybiau pêl-droed maen nhw'n eu gwasanaethu.
 - Cyflwyno technoleg Talu wrth Fynd tapio mewn tapio allan - sy'n cwmpasu cysylltiadau rhwng Gobowen a'r Rhyl, ac ar hyd hyd llawn llinell Wrecsam-Lerpwl
 - Gweithio gyda Network Rail i benderfynu ar ddichonoldeb cyflawni gorsaf reilffordd brawf newydd ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy, i fesur y galw am wasanaethau parhaol i'r parc.
 - Cronfa arloesi trydaneiddio newydd gwerth miliynau o bunnoedd i ddatblygu cynllun i ddatgarboneiddio'r rheilffordd yng Ngogledd Cymru a galluogi gwasanaethau metro amlach a gorsafoedd ychwanegol
 - Arian cyfatebol ar gyfer mynediad heb risiau yng ngorsafoedd Shotton a Rhiwabon.
 - Gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau ar gyfer cyfnewidfeydd amlfoddol Porth yng Nghaergybi, Bangor, Caernarfon a Wrecsam.
 - Gwasanaeth bws T13 newydd - yn cysylltu'r Rhyl, Rhuthun, Dinbych a Wrecsam.
 - Archwilio opsiynau i ailagor gorsafoedd ac adeiladu gorsafoedd newydd i wasanaethu ardaloedd twf cyflogaeth.
 - Rhwydwaith bysiau newydd wedi'i gynllunio'n benodol i gysylltu cymunedau ag ystadau diwydiannol ym Mharth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam.

Fforddiadwyedd

Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi cydweithio â Llywodraeth Cymru i ystyried fforddiadwyedd y blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn. Mae ymarfer wedi'i gynnal gydag awdurdodau lleol i adolygu ac adnewyddu amcangyfrifon Capex ac Opex ochr yn ochr â ffynonellau cyllid tebygol ac amserlenni ar gyfer cyflawni. Bydd hyn yn parhau yn ystod cyfnod y cynllun i helpu i sicrhau bod costau'n cael eu hystyried yn ofalus a'u rhagweld mor gywir â phosibl.

Cydnabyddir bod proses moderneiddio grantiau Llywodraeth Cymru yn parhau, ac er bod y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys cynlluniau gwerth cyfanswm o oddeutu £150m dros ei gyfnod o 5 mlynedd yn unol â chyngor Llywodraeth Cymru, nid yw swm y cyllid a fydd yn cael ei ddarparu i Uchelgais Gogledd Cymru ac awdurdodau lleol bob blwyddyn wedi'i gadarnhau eto.

Er bod canllaw i'r proffil gwariant posibl wedi'i ddarparu yn nhabl crynodeb y Cynllun Cyflawni isod, bydd y gofyniad am raglenni blynyddol o gynlluniau yn hwyluso Uchelgais Gogledd Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol i gytuno ar y flaenoriaeth uwch ac unrhyw gynlluniau eraill wrth iddynt ddod ymlaen i geisio cyllid trafndiaeth ranbarthol Llywodraeth Cymru pan fydd cyllidebau yn hysbys ar gyfer pob blwyddyn o gyfnod y cynllun 5 mlynedd.

Fel rhan o'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn, mae angen hyder gan Lywodraeth Cymru yn fforddiadwyedd y cynlluniau awdurdodau lleol â blaenoriaeth uwch sy'n gofyn am fuddsoddiad o fewn cyfnod y cynllun a lle bydd cyllid rhanbarthol Llywodraeth Cymru yn brif ffynhonnell ariannu.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi gweithio gydag awdurdodau lleol i gadarnhau bod y lefelau gofynnol o gyllid ar gyfer y cynlluniau hynny yn dod i gyfanswm o oddeutu £150m gan gynnwys y cyllid a ddyrannwyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2025/26. Felly, gall Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill fod â llawer o hyder bod y blaenoriaethau yn fforddiadwy.

Mae hyn yn caniatáu hyblygrwydd i rai cynlluniau blaenoriaeth canolig ac is ddod ymlaen dros gyfnod y cynllun, gan gydnabod hefyd na fydd angen cyllid gan Lywodraeth Cymru ar rai cynlluniau, tra bod ffynonellau cyllid eraill hefyd ar gael fel y'u nodir yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol hwn.

Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn cydweithio â'r awdurdodau lleol i greu rhaglenni blynyddol o gynlluniau, gan gynnwys y rhai sy'n ceisio cyllid gan Lywodraeth Cymru, a fydd yn hwyluso adolygiadau parhaus o flaenoriaethau a fforddiadwyedd, a fydd yn ymateb i unrhyw gyllidebau blynyddol y gall Llywodraeth Cymru roi eglurder amdanynt dros gyfnod y cynllun.

Rheoli newid

Efallai y bydd blaenoriaethau yn newid dros amser, er enghraifft gall buddsoddiad annisgwyl, cyfle ariannu neu ddigwyddiad fod angen blaenoriaethau i newid. Mae Cynllun Monitro a Gwerthuso ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn esbonio sut y bydd cyfarfodydd pwyllgor chwarterol Gogledd Cymru yn cael eu cynnal lle bydd swyddogion trafndiaeth awdurdodau lleol yn darparu diweddariadau cynnydd ar gynnydd gweithredu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol. Bydd hyn hefyd yn helpu i ystyried unrhyw flaenoriaethau sy'n newid.

Gall blaenoriaethau sy'n newid hefyd gael eu gyrru gan argaeledd cyllid. Bydd hyn yn cael ei fonitro'n agos gan Uchelgais Gogledd Cymru, a fydd yn cydweithio ag awdurdodau lleol i ystyried a chytuno ar raglenni blynyddol cynlluniau sy'n ystyried y blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol, ac unrhyw ffactorau allanol neu annisgwyl a allai fod angen newid.

Fel y nodir uchod, bydd y sgoriau perfformiad yn seiliedig ar allbynnau yr offeryn blaenoriaethu yn helpu Uchelgais Gogledd Cymru ac awdurdodau lleol i gytuno pa gynlluniau blaenoriaeth canolig ac yna is a all ddod ymlaen unwaith y bydd cynlluniau uwch wedi'u cyflawni.

Byddwn hefyd yn cyflwyno adroddiadau perfformiad blynyddol ar ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn ac yna bydd gwerthusiad cynhwysfawr yn cael ei baratoi ar ôl tair blynedd i asesu a yw ein Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cyflawni'r canlyniadau yr ydym eu heisiau a'u bwriadu, gan ddarparu gwerth am arian ac a oes unrhyw faterion annisgwyl neu ganlyniadau anfwriadol sy'n gofyn am newid ymagwedd. Bydd y canlyniadau'n bwydo i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol dilynol o 2030 ymlaen, a'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth dilynol.

